Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

CLlLC • WLGA

# Cynhadledd Genedlaethol Awtistiaeth Cymru – Hyrwyddo Lles Awtistig 3 Ebrill 2019

Stadiwm Liberty Abertawe

**Cllr Huw David**

## Prynhawn da Bawb,



Rwyf wrth fy modd o fod yma brynhawn heddiw i agor cyfarfod llawn y prynhawn yn y gynhadledd unigryw hon. Rwy'n dweud unigryw gan mai dyma'r gynhadledd fawr gyntaf i Dîm Awtistiaeth Cenedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei chynnal ers i'r tîm gychwyn yn ôl yn 2008. Rwy'n falch o fod yn gysylltiedig â CLlLC, sy'n gorff sy'n cynrychioli'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Wna i ddim mynd i drafod gwleidyddiaeth pethau ond bydd nifer ohonoch yn y gynulleidfa yn gwybod fod toriadau'r sector cyhoeddus yn sylweddol yng Nghymru a dyw llywodraeth leol ddim yn eithriad. Dyna pam mae'r gynhadledd hon yn gymaint o gamp. Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, gyda nifer o bartneriaid a budd-ddeiliaid, wedi llwyddo i ddod â'r gynhadledd hon ynghyd drwy nawdd. Bron i £15k o nawdd gan y sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector i ddod â chynhadledd rhad ac am ddim i chi gydag ystod o siaradwyr ac arweinwyr gweithdai gwych. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod wedi bod yn werth yr ymdrech?

Fe gawsant y weledigaeth ar gyfer y gynhadledd nifer o fisoedd yn ôl a heddiw rydym ni yma. Roedd nifer o bobl awtistig wedi dweud wrth y tîm eu bod yn teimlo'n "anweledig": fod digwyddiadau'n cael eu cynnal i rieni a gofalwyr yn benodol; fod digwyddiadau'n cael eu cynnal i bobl gyda chyflyrau oedd yn cyd-ddigwydd ; fod digwyddiadau'n cael eu cynnal ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Ond ychydig oedd yna i bobl awtistig i'w helpu gyda bywyd o ddydd i ddydd. Felly dechreuodd y tîm gynllunio a pharatoi achos busnes a sefydlwyd grŵp i gyd-gynhyrchu'r gynhadledd, ac mae'r diwrnod wedi cyrraedd fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd.

Ymhlith y partneriaid sydd wedi bod yn rhan o hyn mae: Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyd gynnal y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gyda CLlLC; Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe - ac roeddwn wrth fy modd o glywed fod yr Elyrch wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan y Gynghrair Bêl-droed i gael ystafell synhwyraidd *barhaol* er budd cefnogwyr pêl-droed awtistig yma yn y stadiwm... Newyddion da ynde? Y Gweilch yn y Gymuned, sy'n ddiweddar wedi llwyddo i gael achrediad Ymwybyddiaeth Awtistiaeth drwy ASDinfoWales; a Phrifysgol Abertawe, sydd wedi bod yn gyfrannwr a hyrwyddwr cryf i'r gynhadledd. Mae'r noddwyr craidd hyn wedi noddi'r digwyddiad heddiw, ynghyd â CLlLC, ac rydym yn ddiolchgar iawn am hynny. Hefyd mae gennym gyd noddwyr yn Hacer



Developments sy'n gweithio gyda phartneriaid eraill ar draws y ddinas i newid gwedd Dinas Abertawe a Bae Abertawe gyda phrosiectau adfywio; y Gyfarwyddiaeth Awtistiaeth sy'n gwneud gwaith gwych yn ymwneud â chyngor ac arweiniad i bobl awtistig, yn arbennig mewn perthynas â chyflogaeth, a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddiaeth Iechyd Llywodraeth Cymru. Maent i gyd wedi noddi rhai o'r gweithdai heddiw. Eto, rydym yn hynod o ddiolchgar am eu cefnogaeth.

Mae'r gynhadledd heddiw wedi bod yn enghraifft wych o gyd-gynhyrchu. Mae hwn yn air a ddefnyddir yn aml drwy'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar hyn o bryd, ond mewn gwirionedd mae'n beth anodd iawn i'w gyflawni er mwyn cael canlyniadau go iawn ac er mwyn i bawb sy'n rhan o'r ymdrech fod yn fodlon. Ond mae'r gynhadledd hon wedi bod yn ddigwyddiad sydd wir wedi ei gydgynhyrchu, ac mae'r diolch am hynny i amynedd a diwydrwydd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Maent wedi gweithio gyda phump o bobl awtistig, pump o rieni a gofalwyr a phump o weithwyr proffesiynol dros chwe mis i ddod â'r digwyddiad i chi heddiw - ac nid yw wedi bod heb ei heriau. Mae Cymdeithas Awtistiaeth Cenedlaethol Cymru wedi darparu arweiniad a chefnogaeth werthfawr bob cam o'r daith, ac rwy'n siŵr y byddech yn cytuno, mae wedi bod werth yr ymdrech!

Dewch i mi ddweud ychydig mwy wrthoch am waith y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol. Y Tîm Datblygu Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig Cenedlaethol oeddent yn arfer bod ac maent yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu partneriaid i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Awtistiaeth yng Nghymru. Fe ddechreuodd fel tîm bach o un a nawr mae yma saith aelod yn y tîm sy'n gweithio ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth, mynd i'r afael â hyfforddiant, a datblygu a darparu adnoddau am ddim mewn partneriaeth â phobl awtistig a budd-ddeiliaid eraill.

Hefyd, yn hollbwysig, mae gan y tîm rôl mewn goruchwylio a chefnogi'r saith Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ar draws Cymru. O'r wythnos hon, mae'r saith nawr yn weithredol. Nid yw pob un wedi ei staffio'n llawn, ond mae gan bob un ohonynt rif ffôn a chyfeiriad e-bost lle gall pobl awtistig fynd i gael eu hunan-atgyfeirio neu am gyngor ac arweiniad. Sefydlwyd y Gwasanaeth Awtistaidd Integredig (IAS) ar draws Cymru mewn ymateb i ymarfer ymgynghori mawr yn 2015 pan gafodd dros 1000 o bobl awtistaidd, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eu holi mewn arolwg neu eu cyfweld. Roedd yr ymatebion yn amlwg a'r negeseuon yn glir: roedd yna fwlch mewn gwasanaethau, ar gyfer oedolion awtistaidd yn benodol, a bwlch mewn diagnosis. Ond yn fwy na dim roedd yna fwlch mewn cymorth i oedolion unwaith yr oeddent wedi cael diagnosis. Mae'r saith IAS yn cael eu treialu ar draws Cymru i fynd i'r afael â'r bwlch. Mae CLlLC a Iechyd Cyhoeddus Cymru yn falch o fod wedi chwarae rhan arwyddocaol yn y gwaith o sefydlu'r IAS ac roeddem yn falch o ddarllen yr adroddiad diweddar gan yr Uned Pobl a Lle am gynnydd yr IAS. Mae yna waith i'w wneud a llawer i'w ddatrys cyn y bydd y saith IAS yn gweithio i'w capasiti llawn, ond mae'r arwyddion yn gadarnhaol - mae pobl awtistig yng Nghymru yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r datblygiad. Mae'r IAS yn gweithio'n agos gyda thimau niwroddatblygiadol ar draws Cymru yn ogystal i gefnogi plant sy'n awtistig ac mae gan yr IAS rôl mewn cefnogi rhieni a gofalwyr yn dilyn diagnosis.

Fe newidiodd y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ei enw'r wythnos hon... fel yr eglurais, Tîm Datblygu Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig Cenedlaethol oeddent yn arfer bod, ond o'r wythnos hon, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ydynt. Pam? A beth sydd mewn enw? Wel, fe ddywedodd y gymuned awtistig wrthym nad ydynt yn hoff o'r term "anhwylder" ac fel tîm maent wedi ymateb i hynny. Hefyd nid yw'r tîm bellach yn "datblygu" - maent yn atgyfnerthu, maent yn darparu, ac maent yn falch o ddathlu blwyddyn o waith yn ystod 2018/19 a ddaw i ben gyda'r gynhadledd hon ac yna dechrau 2019/20 gyda'r un digwyddiad mawr hefyd!

Ddoe roedd y tîm yn falch o gefnogi digwyddiad Y Safon Aur (Going Gold) yn y Senedd, a arweiniwyd gan Willow Holloway, Is-gadeirydd Anabledd Cymru a sylfaenydd Rhwydwaith y Merched Awtistig. Roedd yn ddigwyddiad hynod o gadarnhaol ac wedi cael y cyfle i edrych ar y Senedd, fe gyflwynodd y bobl awtistig eu profiadau i gynulleidfa o bobl awtistig, gwleidyddion a phobl broffesiynol. Roedd yn hynod o dda ym marn pawb. Roedd y tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn falch o lansio'r ymgynghoriad yn ymwneud â'i Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi a gwahoddodd bobl i ymateb i'r darn allweddol hwn o waith. Ers ymuno â'r tîm fel arweinwyr dros dro, mae Wendy Thomas a Sara Harvey wedi ymrwymo i ymgysylltu gyda phobl awtistig a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru. Mae'r strategaeth yn rhan o hynny, ac rwy'n eich annog i edrych arni ac ymateb iddi.

Rwy’n gobeithio y byddwch yn parhau i fwynhau'r gynhadledd. Rwy’n edrych ymlaen i glywed cyflwyniad Jules Robertson. Dydw i ddim yn gwylio Holby City yn aml iawn ond rwy’n siŵr fod nifer ohonoch yn gwneud hynny ac rwy’n deall fod y BBC wedi gwneud gwaith gwych yn cyfleu'r heriau y mae pobl awtistig yn eu hwynebu yn y gwaith ac yn eu bywydau dyddiol mewn dull real a heb fod yn nawddoglyd. Fe fyddwch yn sylwi fod Jules gyda Gemma Smith, ei "alluogwr creadigol" - am waith gwych ynde? A theitl gwych... Rwy’n deall fod y rhan fwyaf o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol nawr yn dadlau dros gael Galluogwr Creadigol yn y Swyddfa!

Felly heb ragor o oedi, rhowch groeso os gwelwch yn dda i Jules Robertson a Gemma Smith.